



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 15 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion

### PWYSIG NEGES BWYSIG I GLERCOD – DDAU EITEM GYDA FLAENORIAETH UCHEL

1. Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru yn cael ei gynnal ar **Ionawr 21ain** (rhwng 6-8yh). Rydym **DAL YN AROS** am enw'r cynrychiolydd enwebedig i fynychu gan lawer o Gynghorau. Mae'n **HANFODOL** bod un aelod yn mynychu o BOB CYNGOR AELOD. Os gwelwch yn dda, sicrhewch ein bod yn derbyn enw eich cynrychiolydd cyn i chi dorri ar gyfer y cyfnod Nadolig – neu, os yw'n cael ei drafod mewn cyfarfod ym Mis Ionawr, rhowch wybod i ni am y dyddiad fel y gallwn ddisgwyl enw'r Cynghorydd enwebedig.
2. **Mewngofnodi i'r Wefan Newydd OVW** Ymddengys nad yw llawer o Glercod erioed wedi mewngofnodi i'r wefan newydd OVW neu heb rannu'r manylion mewngofnodi gyda'u Cynghorwyr. Os nad ydych wedi cofrestru i gael mynediad i ardaloedd aelodau'r safle, cysylltwch â **gweinydd@unllaiscymru.cymru** a gallwn drefnu ail anfon hyn i chi. Os oes gennych eich manylion mewngofnodi eisoes, **OS GWELWCH YN DDA**, sicrhewch fod y manylion hyn yn cael eu rhannu gyda'ch Cynghorwyr.

## Ddeddfwriaeth Cyflogaeth

**Deddfwriaeth Cyflogaeth sy'n cael ei hystyried gan Senedd y DU**

- Dileu cyfnodau cymhwyso ar gyfer hawliau sylfaenol megis tâl salwch a chaniatâd rhiant.
- Gostwng y cyfnod cymhwyso ar gyfer yr hawl sylfaenol i hawlio diswyddo annheg o ddwy flynedd i chwe mis.
- Mwy o amddiffyniad rhag diswyddo mewn perthynas ag weithwyr beichiog ar absenoldeb mamolaeth.
- Estyn y terfyn amser ar gyfer dwyn hawliad tribiwnlys o dri i chwe mis.
- Dileu'r terfyn enillion isaf ar gyfer SSP a'r gofyniad i dalu SSP o'r diwrnod cyntaf o absenoldeb.
- Caniatáu ceisiadau am weithio hyblyg o'r diwrnod cyntaf a bydd angen i gyflogwyr egluro pam fod eu gwrthodiad o gais yn rhesymol.
- Cyflwyno hawl newydd sbon i absenoldeb profedigaeth.

------------------------------

## Cymeradwyaethau benthyca: canllaw ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cyngor i gynghorau cymuned a thref ar sut i fenthyg arian i brynu eitemau cyfalaf.

Ddogfen canllawiau

------------------------------

YDCW CPRW Elusen Cefn Gwlad Cymru The Welsh Countryside Charity

## Siarter yn galw am drawsnewid teg a democrataidd tuag at sero net

A oes modd rhoi y Siarter ar agenda eich cyfarfod, ac oes modd ichi nodi os yw eich cyngor y cefnogi'r Siarter - drwy ebostio YDCW cprw.org.uk os gwelwch yn dda?.

Ddogfen Siarter

------------------------------

## Mae llawer o Gynghorau ar hyn o bryd yn edrych ar eu trefniadau archwilio mewnol. Mae'r Canllaw i Ymarferwyr (dilynwch y ddolen botwm) yn cynnwys cyngor defnyddiol ar archwilio mewnol.

Gweler y ddogfen

**Dyma hefyd ddogfen ddefnyddiol gan un Cyngor yng Nghaerdydd.**

**https://radyrandmorganstowncc.org/wp-content/uploads/7-Audit-Plan.pdf.**

**------------------------------**

Archwilio Cymru Audit Wales

Ymgynghoriad ar amcanion cydraddoldeb arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer 2026-2030

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd barn ar ein hamcanion cydraddoldeb drafft ar gyfer y cyfnod 2026-2030.**

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn adolygu'r holl ymatebion, gyda mewnbwn gan Pawb (ein grŵp diddordeb cydraddoldeb staff), a'u hystyried wrth baratoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf i'w gyhoeddi yn y Gwanwyn yn 2026.

**Sut i ymateb**

Rydym yn gwahodd eich barn ac rydym wedi darparu mwy o wybodaeth ar ein gwefan.


Ymatebwch erbyn 20 Ionawr 2026

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, anfonwch e-bost at: post@archwilio.cymru

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.


Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

**.......................**

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:





**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:





**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

**Cliciwch yma i llogi lle**

---

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:




**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Penodi Comisiynydd i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (Cymraeg yn ddymunol) -

**Penodi Comisiynydd i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (Cymraeg yn hanfodol) -**

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 09.01.2026 am 16:00.**

---



## Cadwch y Dyddiad

**Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru**

21ain IONAWR 2026

6-8yh

**Cynhadledd Cenedlaethol a Gwobrau Un Llais Cymru**

1af GORFFENNAF 2026

**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

30ain MEDI 2026

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

### Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

Ydych chi wedi cwblhau'r Arolwg Asesu Effaith Gymdeithasol? Mae gwaith eich cyngor yn bwysig. Rydym wedi cael ymateb cadarn gan gynghorau ledled Cymru, ond os nad yw eich gweithgarwch wedi'i gofnodi yn y data, ni ellir ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a gyflwynwn i Lywodraeth Cymru.

Mae'r arolwg hwn yn helpu i ddangos gwir raddfa ac effaith yr hyn y mae Cynghorau Cymuned a Thref wedi'i gyflawni yn ystod yr argyfwng costau byw, yn cryfhau achos y sector dros gyllid a pholisi yn y dyfodol, ac yn darparu tystiolaeth y gallwch hefyd ei defnyddio'n lleol mewn ceisiadau am gyllid a phartneriaethau.

Nid dim ond beth rydych wedi'i wneud sy'n cyfrif, ond y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud—felly mae manylder yn gwneud pob gwahaniaeth.

Cwblhewch yr arolwg Asesiad effaith OVW ar Gynghorau TCC

Lawr lwythwch y cwestiynau o flaen llaw https://bit.ly/48Q3wXD

Diolch i'r holl gynghorau sydd eisoes wedi cymryd rhan; mae eich cyfraniad yn sicrhau bod cynghorau'n cael eu gweld, eu clywed a'u gwerthfawrogi ar lefel genedlaethol

**Lleoedd lleol ar gyfer Natur**

Mae'r trydydd rownd adrodd Adran 6 nawr wedi cwblhau, a dylai pob Cyngor wedi cwblhau ei Adroddiad Adran 6 2025.

Mae'r rownd adrodd nesaf yn 2028. Mae rhaid i'ch Cyngor ysgrifennu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) sy'n amlinellu'r gweithredoedd byddech yn cymryd i gyrraedd eich dyletswydd statudol Adran 6 dros y 3 blwyddyn nesaf

Rydym yn awr yn cynnig 6 gweithdai ar-lein i helpu cynghorau deall sut i ysgrifennu CGB am 2026-2028.

Bydd y gweithdai yma yn cael eu gynnal ar Microsoft Teams dros fis Ionawr 2026.

Gwelwch y ffurflen atodedig neu cliciwch yn is am wybodaeth;

Gweithdai CGB
Un Llais Cymru

Yn ystod pob gweithdy ar-lein bydd y Swyddogion Bioamrywiaeth yn dangos sut i ysgrifennu CGB i gyrraedd y ddyletswydd statudol, rhannu ffynonellau gwybodaeth a chyngor, ac ateb cwestiynau penodol ar sut i ysgrifennu CGB.

Ar ôl y gweithdai, os oes angen cymorth unigol, gall cynghorau cysylltu â ni.

Uchafswm o 40 Cyngor fydd yn gallu mynychu pob gweithdy, fel y gall pob Cyngor gael y gorau allan o'r sesiwn.

Dylech gofrestru i **un gweithdy fesul Cyngor** yn unig**.** Bydd hyn yn golygu y gall cymaint o Gynghorau â phosib mynychu'r gweithdai.

Er mwyn archebu lle ar un o'r gweithdai dylech wasgu ar eich dewis ddyddiad isod:

**Gweithdai Ar-lein ar**

**Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**

06.01.26 @6.30yh – 8yh

08.01.26 @11yb – 12.30yp

13.01.26 @6.30yh – 8yh

15.01.26 @12yp - 13.30yp

21.01.26 @13.30yp – 15.00yp

22.01.26 @6.30yh – 8yh

**Unwaith bydd eich cofrestriad wedi cymeradwyo, byddech yn derbyn e-bost efo dolen i'r cyfarfod. Gallwch rannu'r ddolen yma efo aelodau'r Cyngor.**

---



**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite